



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 2730 (Cy.237)

2004 No. 2730 (W.237)

**CAFFAEL TIR,
CYMRU**

**ACQUISITION OF LAND,
WALES**

Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol
(Gweithdrefn Sylwadau
Ysgrifenedig) (Cynulliad
Cenedlaethol Cymru) 2004

The Compulsory Purchase of Land
(Written Representations
Procedure) (National Assembly for
Wales) Regulations 2004

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn nodi'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig ("y weithdrefn") y gellir ei defnyddio wrth benderfynu a ddylid awdurdodi prynu tir yn orfodol os Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") yw'r awdurdod caffael neu gadarnhau ac y mae gweithdrefnau Deddf Caffael Tir 1981 ("y Ddeddf") yn gymwys.

These Regulations set out the written representations procedure (the "procedure") that may be used for deciding whether to authorise the compulsory purchase of land in Wales where the National Assembly for Wales ("the National Assembly") is the acquiring or confirming authority and the procedures in the Acquisition of Land Act 1981 ("the Act") apply.

Gellir penderfynu ar y gwrthwynebiadau o ran cadarnhau gorchymyn prynu gorfodol a wneir o dan Ran II o'r Ddeddf (fel a ddiffinnir yn adran 13A(1) o'r Ddeddf) na chawsant eu tynnu'n ôl ac na ellir eu diystyru ("gwrthwynebiadau sy'n parhau") yn ôl gweithdrefn a ragnodwyd gan reoliadau (adran 13A o'r Ddeddf). Dyma ddewis amgen i gynnal ymchwiliad, ar yr amod bod pawb sy'n parhau i wrthwynebu yn cydsynio yn y modd a ragnodwyd.

Objections to the confirmation of a compulsory purchase order made under Part II of the Act (as defined in section 13A(1) of the Act) which have not been withdrawn and which may not be disregarded ("remaining objections") can be determined by a procedure prescribed by regulations (section 13A of the Act). This is an alternative to the holding of an inquiry, provided all those having remaining objections consent in the prescribed manner.

Yn yr un modd, gellir penderfynu ar y gwrthwynebiadau sy'n parhau o ran gwneud gorchymyn prynu gorfodol o dan Atodlen 1 i'r Ddeddf (fel a ddiffinnir ym mharagraff 4A(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf) yn ôl y weithdrefn honno (paragraff 4A o Atodlen 1 i'r Ddeddf).

Similarly, remaining objections to the making of a compulsory purchase order under Schedule 1 to the Act (as defined in paragraph 4A(1) of Schedule 1 to the Act) can be determined by such a procedure (paragraph 4A of Schedule 1 to the Act).

Mae prif gamau'r weithdrefn yn cynnwys-

The main steps in the procedure include-

- (a) os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried defnyddio'r weithdrefn, bydd yn anfon ffurflen gydsynio (ar y ffurf a nodir yn yr Atodlen i'r

- (a) if the National Assembly is considering the use of the procedure, it will send a consent form (in the form set out in the Schedule to these

- Rheoliadau hyn) at bawb sy'n parhau i wrthwynebu, gan ofyn am eu cydsyniad ysgrifenedig i ddefnyddio'r weithdrefn (rheoliad 3);
- (b) dim ond os bydd yr holl wrthwynebwyr hynny yn cydsynio y caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddefnyddio'r weithdrefn. Nid oes rheidrwydd arno i ddefnyddio'r weithdrefn ond, os yw'n penderfynu y dylai'r weithdrefn fod yn gymwys, bydd yn rhoi dyddiad dechrau ar gyfer y weithdrefn (rheoliad 4);
- (c) bydd unrhyw ddogfennau a gyflwynir gan yr awdurdod caffael i'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu ar adeg gwneud gorchymyn prynu gorfodol neu baratoi gorchymyn o'r fath ar ffurf drafft, ac unrhyw lythyrau neu ddogfennau eraill a roddir i'r Cynulliad Cenedlaethol yn wrthwynebiadau i gadarnhau neu wneud y gorchymyn, yn mynd yn rhan o'r sylwadau a fydd i'w hystyried (rheoliad 5(1) a (2));
- (ch) oni bai bod yr awdurdod caffael yn dewis peidio â gwneud hynny, caiff wneud sylwadau i gefnogi ei gais (y gellir eu diystyru os derbynir hwy mwy na 14 o ddiwrnodau gwaith ar ôl y dyddiad dechrau). Anfonir copi o'r sylwadau hynny at bawb sy'n parhau i wrthwynebu (rheoliad 5(4) a (5));
- (d) caiff unrhyw un sy'n parhau i wrthwynebu ymateb gyda sylwadau (y gellir eu diystyru os derbynir hwy fwy na 15 o ddiwrnodau gwaith ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon copi o sylwadau'r awdurdod caffael, o dan baragraff (ch) uchod) (rheoliad 5(6) a (7));
- (dd) caiff yr awdurdod caffael, wrth ymateb i sylwadau rhywun sy'n parhau i wrthwynebu a grybwyllir ym mharagraff (d) uchod, wneud sylwadau pellach (y gellir eu diystyru os derbynir hwy fwy na 10 niwrnod gwaith ar ôl i'r Cynulliad Cenedlaethol neu'r awdurdod caffael, os yw'n wahanol, anfon copi o sylwadau'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu) (rheoliad 5(8) a (9));
- (e) caiff y Cynulliad Cenedlaethol ganiatáu i unrhyw berson arall wneud sylwadau (y gellir eu diystyru os derbynir hwy fwy na 14 o ddiwrnodau gwaith ar ôl y dyddiad dechrau a bennwyd i'r awdurdod caffael roi ei sylwadau) (rheoliad 6);
- (f) mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddisgresiwn i estyn y terfynau amser mewn unrhyw achos arbennig (rheoliad 7);
- (ff) caiff y Cynulliad Cenedlaethol benodi arolygydd i ystyried y sylwadau, i archwilio safle (os yw'n briodol) ac i lunio adroddiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol gydag argymhelliad (rheoliad 8);
- Regulations) to all those with remaining objections, seeking their written consent to the use of the procedure (regulation 3);
- (b) only if all such objectors consent may the National Assembly use the procedure. It is not obliged to use the procedure, but, if it determines that the procedure should apply, it will set a starting date from which the procedure will commence (regulation 4);
- (c) any documents served by the acquiring authority on the remaining objectors at the time of the making or preparation in draft of a compulsory purchase order, and any letters and other documents provided to the National Assembly as objections to confirmation or making, will form part of the representations to be considered (regulation 5(1) and (2));
- (d) unless the acquiring authority elects not to do so, it may make representations in support of its application (which may be disregarded if received more than 14 working days after the starting date). Such representations will be copied to each remaining objector (regulation 5(4) and (5));
- (e) any remaining objector may make representations in response (which may be disregarded if received more than 15 working days after the National Assembly sends a copy of the acquiring authority's representations under paragraph (d) above) (regulation 5(6) and (7));
- (f) in response to a remaining objector's representations mentioned in paragraph (e) above, the acquiring authority may make further representations (which may be disregarded if received more than 10 working days after the National Assembly or, if different, the acquiring authority sends a copy of the remaining objectors' representations) (regulation 5(8) and (9));
- (g) the National Assembly may permit representations to be made by any other person (which may be disregarded if received more than 14 working days after the starting date set for the acquiring authority to provide its representations) (regulation 6);
- (h) the National Assembly has a discretion to extend the time limits in any particular case (regulation 7);
- (i) the National Assembly may appoint an inspector to consider the representations, to undertake a site inspection (if appropriate) and to report in writing to the National Assembly with a recommendation (regulation 8);

- (g) caiff yr arolygydd archwilio safle tir sy'n destun gorchymyn prynu gorfodol ynghyd â'r ardal gyfagos ar unrhyw adeg. Caiff yr archwilydd wneud yr archwiliad ar ei ben ei hunan (a hynny heb roi rhagysbysiad i'r awdurdod caffael nac i'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu) neu yng nghwmni cynrychiolydd yr awdurdod caffael a'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu (rheoliad 9(1)). Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon hysbysiad o ddyddiad ac amser archwiliad sydd i'w wneud yng nghwmni'r personau hynny at yr awdurdod caffael a'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu, fel y caiff ei dderbyn dim llai na 5 niwrnod gwaith cyn yr archwiliad (rheoliad 9(2)). Pan na fydd cynrychiolydd o'r awdurdod caffael na'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu yn bresennol ar gyfer archwiliad, nid yw'n ofynnol i'r archwilydd ei ohirio (rheoliad 9(3));
- (ng) os yw'r awdurdod caffael neu'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu yn gwneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol, heb fod yn hwyrach na 10 niwrnod gwaith ar ôl y dyddiad dechrau, am archwiliad safle yn eu cwmni, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol drefnu archwiliad o'r fath (rheoliad 9(4));
- (h) bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu cadarnhau neu wneud y gorchymyn prynu gorfodol ar sail y sylwadau ysgrifenedig ac unrhyw adroddiad gan yr archwilydd (rheoliad 10); ac
- (i) bydd y Cynulliad Cenedlaethol (oni bai mai'r awdurdod caffael ydyw) yn hysbysu'r awdurdod caffael, a'r sawl sydd â'r hawl i wneud sylwadau o ran eu gwrthwynebiadau, o'r penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad. Caiff unrhyw un o'r personau hynny wneud cais am gopi o unrhyw adroddiad neu sylw a ystyriwyd; wedyn, dylid anfon yr adroddiad neu'r sylwadau dim hwyrach na 10 niwrnod gwaith ar ôl derbyn y cais (rheoliad 11).
- (j) the inspector may at any time make a site inspection of the land which is the subject of the compulsory purchase order and of the surrounding area. The inspector may make the inspection unaccompanied (without giving prior notice to the acquiring authority and the remaining objectors) or in the company of a representative of the acquiring authority and the remaining objectors (regulation 9(1)). Notification of the date and time of an accompanied inspection must be sent to the acquiring authority, and the remaining objectors, by the National Assembly so as to be received not less than 5 working days before the inspection (regulation 9(2)). The inspector is not required to defer an accompanied inspection where the acquiring authority or a remaining objector is not present (regulation 9(3));
- (k) if, not later than 10 working days after the starting date, the acquiring authority or a remaining objector makes to the National Assembly a request for an accompanied site inspection, such an inspection must be arranged by the National Assembly (regulation 9(4));
- (l) the National Assembly will determine the confirmation or making of the compulsory purchase order on the basis of the written representations and any report of the inspector (regulation 10); and
- (m) the National Assembly will (unless it is the acquiring authority) notify the acquiring authority, and those permitted to make representations in respect of their objections, of the decision and the reasons for the decision. Any such person may apply for a copy of any report or representation taken into account; such report or representations then to be sent not later than 10 working days after receipt of the request (regulation 11).

2004 Rhif 2730 (Cy.237)

2004 No. 2730 (W.237)

CAFFAEL TIR,
CYMRUACQUISITION OF LAND,
WALESRheoliadau Prynu Tir yn Orfodol
(Gweithdrefn Sylwadau
Ysgrifenedig) (Cynulliad
Cenedlaethol Cymru) 2004The Compulsory Purchase of Land
(Written Representations
Procedure) (National Assembly for
Wales) Regulations 2004

Wedi'u gwneud 19 Hydref 2004
Yn dod i rym 31 Hydref 2004

Made 19 October 2004
Coming into force 31 October 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), drwy arfer ei bwerau o dan adrannau 7(2), 13A(2) a (6) a 13B(7) o Ddeddf Caffael Tir 1981(a), a pharagraff 4A(2), (7) ac (8) o Atodlen 1 iddi, a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw, drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

The National Assembly for Wales ("the National Assembly"), in exercise of its powers under sections 7(2), 13A(2) and (6) and 13B(7) of, and paragraph 4A(2), (7) and (8) of Schedule 1 to, the Acquisition of Land Act 1981(a), and all other powers enabling it in that behalf, hereby makes the following Regulations:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Prynu Tir yn Orfodol (Gweithdrefn Sylwadau Ysgrifenedig) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2004 a deuant i rym ar 31 Hydref 2004.

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Compulsory Purchase of Land (Written Representations Procedure) (National Assembly for Wales) Regulations 2004 and come into force on 31 October 2004.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol, naill ai-

(2) Subject to paragraph (3), these Regulations apply where the National Assembly is either the-

- (a) yn awdurdod cadarnhau(b); neu
- (b) yn awdurdod priodol(c),

- (a) confirming authority(b); or
- (b) the appropriate authority(c),

- (a) 1981 p.67; mewnosodwyd adrannau 13A(2) a (6) a 13B(7) o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 4A(2), (7) ac (8) o Atodlen 1 iddi, gan Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p.5). Mewn perthynas â Chymru, mae'r pwerau a geir yn y darpariaethau hynny, gan mwyaf, yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 121(1) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas ag awdurdodi prynu tir yn orfodol yng Nghymru (gan gynnwys adran 7(2) o Ddeddf Caffael Tir 1981) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
- (b) I gael gweld y diffiniad o "confirming authority", gweler adran 7(1) o Ddeddf Caffael Tir 1981.
- (c) I gael gweld y diffiniad o "appropriate authority", gweler paragraff 4(8) o Atodlen 1 i Ddeddf Caffael Tir 1981, adran 118(3) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ac O.S. 1999/672.

- (a) 1981 c.67; sections 13A(2) and (6) and 13B(7) of, and paragraph 4A(2), (7) and (8) of Schedule 1 to, the Acquisition of Land Act 1981 were inserted by the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 (c.5). In relation to Wales, the powers contained in those provisions are, for the most part, exercisable by the National Assembly for Wales by virtue of section 121(1) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004. Most of the functions of the Secretary of State relating to the authorisation of the compulsory purchase of land in Wales (including section 7(2) of the Acquisition of Land Act 1981) were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).
- (b) For the definition of "confirming authority", see section 7(1) of the Acquisition of Land Act 1981.
- (c) For the definition of "appropriate authority", see paragraph 4(8) of Schedule 1 to the Acquisition of Land Act 1981, section 118(3) of the Planning and Compulsory Purchase Act 2004 and S.I. 1999/672.

ac y mae'n ystyried defnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig, neu'n ystyried trafodion o dan y weithdrefn honno(a).

(3) Ni fydd y Rheoliadau hyn yn gymwys os digwydd y canlynol cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym-

- (a) yn achos paragraff (2)(a), cyhoeddi am y tro cyntaf yr hysbysiad o wneud y gorchymyn prynu gorfodol yn unol ag adran 11(1) o Ddeddf Caffael Tir 1981; neu
- (b) yn achos paragraff (2)(b), cyhoeddi am y tro cyntaf yr hysbysiad o baratoi'r gorchymyn prynu gorfodol ar ffurf ddrafft yn unol â pharagraff (2) o Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn-

ystyr "anfon" ("*send*") yw anfon rhywbeth, gan ragdalu am y post dosbarth cyntaf, sydd wedi'i gyfeirio at y cyfeiriad cywir(b) neu at unrhyw gyfeiriad amgen y bydd y derbyniwr yn gofyn amdano;

ystyr "y cyflwyniad" ("*the submission*") yw'r cyflwyniad sy'n gofyn am gadarnhau gorchymyn prynu gorfodol o dan Ran II o Ddeddf Caffael Tir 1981 neu sy'n gofyn am wneud gorchymyn prynu gorfodol a baratowyd ar ffurf ddrafft o dan Atodlen 1 i'r Ddeddf honno;

mae "datganiad" ("*statement*") yn cynnwys ffotograff, map neu blan, ond yn eithrio datganiadau llafar;

ystyr "diwrnod gwaith" ("*working day*") yw unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddydd Sadwrn, yn ddydd Sul, yn Ddydd Nadolig, yn Ddydd Gwener y Groglith nac yn wyl y banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971(c);

ystyr "dyddiad dechrau" ("*starting date*") yw'r dyddiad dechrau y cyfeirir ato yn rheoliad 4(a);

ystyr "y sawl sy'n parhau i wrthwynebu" ("*remaining objector*") yw person sydd â gwrthwynebiad sy'n parhau(ch); ac

ystyr "sylwadau" ("*representations*") yw sylwadau ysgrifenedig, datganiadau a dogfennau ategol.

and it is considering the use of, or proceedings under, the written representations procedure(a).

(3) These Regulations do not apply where, in the case of-

- (a) paragraph (2)(a), first publication of the notice of the making of the compulsory purchase order pursuant to section 11(1) of the Acquisition of Land Act 1981; or
- (b) paragraph (2)(b), first publication of the notice of preparation in draft of the compulsory purchase order pursuant to paragraph (2) of Schedule 1 to that Act,

takes place before the date on which these Regulations come into force.

Interpretation

2.-(1) In these Regulations-

"remaining objector" ("*y sawl sy'n parhau i wrthwynebu*") means a person who has a remaining objection(b);

"representations" ("*sylwadau*") means written representations, statements and supporting documents;

"send" ("*anfon*") means sent by pre-paid first class post addressed to the proper address(c) or such alternative address as the recipient may request;

"starting date" ("*dyddiad dechrau*") means the starting date referred to in regulation 4(a);

"statement" ("*datganiad*") includes a photograph, map or plan, but excludes oral statements;

"the submission" ("*y cyflwyniad*") means the submission seeking the confirmation of a compulsory purchase order under Part II of the Acquisition of Land Act 1981 or the making of a compulsory purchase order prepared in draft under Schedule 1 to that Act; and

"working day" ("*diwrnod gwaith*") means any day other than a Saturday, Sunday, Christmas Day, Good Friday or a day which is a bank holiday under the Banking and Financial Dealings Act 1971(d).

(a) I gael gweld y diffiniad o "written representations procedure", gweler adran 13A(6) o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 4A(7) o Atodlen 1 iddi.

(b) I gael gweld ystyr "proper address", gweler adran 6(3) o Ddeddf Caffael Tir 1981.

(c) 1971 p.80.

(ch) I gael gweld y diffiniad o "remaining objection", gweler adran 13A o Ddeddf Caffael Tir 1981, a pharagraff 4A(1) o Atodlen 1 iddi.

(a) For the definition of "written representations procedure", see section 13A(6) of, and paragraph 4A(7) of Schedule 1 to, the Acquisition of Land Act 1981.

(b) For the definition of "remaining objection", see section 13A of, and paragraph 4A(1) of Schedule 1 to, the Acquisition of Land Act 1981.

(c) For the meaning of "proper address", see section 6(3) of the Acquisition of Land Act 1981.

(d) 1971 c.80.

(2) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at adrannau yn cyfeirio at adrannau Deddf Caffael Tir 1981, ac mae cyfeiriadau at Atodlen 1 yn cyfeirio at Atodlen 1 i'r Ddeddf honno.

(3) Os y Cynulliad Cenedlaethol yw'r awdurdod caffael, mae darpariaethau'r Rheoliadau hyn sy'n gofyn am gyfathrebu rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a'r awdurdod caffael yn gymwys gyda'r addasiadau hynny y gall fod eu hangen.

Cydsynio

3.-(1) Mae'r rheoliad hwn yn rhagnodi'r dull y caiff y sawl sy'n parhau i wrthwynebu gydsynio i'r Cynulliad Cenedlaethol ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

(2) Er mwyn rhoi ei gydsyniad, rhaid i'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu ddychwelyd i'r Cynulliad Cenedlaethol, fel y bydd yn dod i law dim hwyrach na'r dyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4), yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3) gan nodi arno gydsyniad y gwrthwynebydd i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

(3) Rhaid i'r hysbysiad fod ar y ffurf a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn neu ar ffurf sy'n sylweddol debyg o ran ei heffaith.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3) at bob un sy'n parhau i wrthwynebu a rhaid hysbysu dyddiad gyda'r hysbysiad hwnnw nad sy'n llai na 15 o ddiwrnodau gwaith ar ôl y dyddiad pan anfonir yr hysbysiad at y sawl sy'n gwrthwynebu.

(5) Os na roddir cydsyniad gan bob un sy'n parhau i wrthwynebu yn unol â pharagraff (2), bydd y Cynulliad Cenedlaethol, yn ddarostyngedig i baragraff (6), yn mynd rhagddo ar y sail nad yw'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn gymwys.

(6) Os daw'r hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff (3), lle y dangosodd y sawl sy'n parhau i wrthwynebu ei gydsyniad i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig, i law'r Cynulliad Cenedlaethol ar ôl y dyddiad y cyfeirir ato ym mharagraff (4), caiff y Cynulliad Cenedlaethol drin y sawl sy'n gwrthwynebu fel un a gydsyniodd i ddefnyddio'r weithdrefn sylwadau ysgrifenedig ac, os felly, caiff ddewis mynd rhagddo o dan y weithdrefn honno os yw'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau i wneud hynny.

(7) Os yw paragraff (6) yn gymwys, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried pa gamau a gymerwyd gan yr awdurdod caffael a'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu neu drydydd parti y dylid ystyried eu bod yn golygu iddynt gydymffurfio'n sylweddol ag unrhyw ofynion sy'n dilyn yn y Rheoliadau hyn a rhaid iddo hysbysu'r personau hynny yn unol â hynny.

(2) References in these Regulations to sections are to sections of the Acquisition of Land Act 1981 and references to Schedule 1 are to Schedule 1 to that Act.

(3) Where the National Assembly is the acquiring authority, the provisions of these Regulations which require any communication between the National Assembly and the acquiring authority apply with such adaptation as may be necessary.

Consent

3.-(1) This regulation prescribes the manner in which a remaining objector may consent to the use of the written representations procedure by the National Assembly.

(2) In order to give consent, the remaining objector must return to the National Assembly, so as to be received no later than the date referred to in paragraph (4), the notice referred to in paragraph (3), on which the objector has indicated consent to the use of the written representations procedure.

(3) The notice must be in the form set out in the Schedule to these Regulations or in a form substantially to the like effect.

(4) The National Assembly must send the notice referred to in paragraph (3) to each remaining objector and such notice must be accompanied by notification of a date, which must be not less than 15 working days after the date on which the notice is sent to the objector.

(5) If consent is not given by each remaining objector in accordance with paragraph (2), the National Assembly will, subject to paragraph (6), proceed on the basis that the written representations procedure will not apply.

(6) If the notice referred to in paragraph (3), in which a remaining objector has indicated consent to the use of the written representations procedure, is received by the National Assembly after the date referred to in paragraph (4), the National Assembly may treat the objector as having consented to the use of the written representations procedure and, if so, may elect to proceed under that procedure if it is reasonable in all the circumstances to do so.

(7) Where paragraph (6) applies, the National Assembly must consider what steps taken by the acquiring authority and any remaining objector or third party are to be regarded as amounting to substantial compliance with any of the remaining requirements of these Regulations and must notify all such persons accordingly.

Hysbysu bod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn gymwys

4. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu bod y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig yn gymwys, rhaid iddo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol, roi gwybod i bob un o'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu, a'r awdurdod caffael, yn ysgrifenedig am-

- (a) y dyddiad a fydd yn ddyddiad dechrau ar gyfer y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig;
- (b) y cyfeirnod a roddwyd i'r cyflwyniad;
- (c) y cyfeiriad y dylid anfon cyfathrebu ysgrifenedig at y Cynulliad Cenedlaethol; ac
- (ch) teitlau neu ddisgrifiadau y datganiadau sy'n bodoli eisoes a fydd yn cael eu hystyried gan y Cynulliad Cenedlaethol fel sylwadau wrth benderfynu ar y cyflwyniad.

Sylwadau

5.-(1) Cymerir fod unrhyw ddatganiad y mae'r awdurdod caffael yn ei roi i bawb sy'n parhau i wrthwynebu, ar yr adeg y mae'n rhoi hysbysiad o dan adran 12 neu baragraff 3 o Atodlen 1, yn ffurfio rhan o sylwadau'r awdurdod caffael at ddibenion y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig.

(2) Rhaid i'r awdurdod caffael roi unrhyw ddatganiad o'r math a grybwyllir ym mharagraff (1) i'r Cynulliad Cenedlaethol, ond caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddiystyru'r datganiad hwnnw os derbyniodd ef fwy na 5 niwrnod gwaith ar ôl y dyddiad dechrau.

(3) Bydd y gwrthwynebiad a wnaed i'r Cynulliad Cenedlaethol gan neu ar ran y sawl sy'n parhau i wrthwynebu yn ffurfio rhan o sylwadau'r sawl sy'n parhau i wrthwynebu at ddibenion y weithdrefn sylwadau ysgrifenedig, ac, os na fydd wedi gwneud hynny eisoes, rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon copi o'r gwrthwynebiad at yr awdurdod caffael er mwyn iddo ddod i law ymhen dim mwy na 5 niwrnod gwaith ar ôl y dyddiad dechrau.

(4) Caiff yr awdurdod caffael-

- (a) gwneud sylwadau pellach i gefnogi ei gyflwyniad; neu
- (b) dewis trin unrhyw ddatganiad o dan baragraff (1) fel ei sylwadau mewn perthynas â'r cyflwyniad at ddibenion is-baragraff (a); ac, os digwydd hynny, rhaid i'r awdurdod caffael hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol a phawb sy'n parhau i wrthwynebu yn unol â hynny.

(5) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddiystyru sylwadau a wnaed o dan baragraff (4) os yw'n derbyn y sylwadau hynny fwy na 14 o ddiwrnodau gwaith ar ôl y dyddiad dechrau.

(6) Caiff y sawl sy'n parhau i wrthwynebu-

- (a) gwneud sylwadau i'r Cynulliad Cenedlaethol

Notification of application of written representations procedure

4. Where the National Assembly decides that the written representations procedure is to apply, it must, as soon as is practicable, inform each remaining objector, and the acquiring authority, in writing of the-

- (a) date which is to be the starting date for the written representations procedure;
- (b) reference number allocated to the submission;
- (c) address to which written communications to the National Assembly are to be sent; and
- (d) title or description of existing statements which will be considered by the National Assembly as representations in determining the submission.

Representations

5.-(1) Any statement provided by the acquiring authority to each remaining objector at the time at which it serves notice under section 12 or paragraph 3 of Schedule 1 will be taken to form part of the acquiring authority's representations for the purposes of the written representations procedure.

(2) The acquiring authority must provide the National Assembly with any statement of the type mentioned in paragraph (1), but any such statement may be disregarded if received by the National Assembly more than 5 working days after the starting date.

(3) The objection made by or on behalf of a remaining objector to the National Assembly will form part of the remaining objector's representations for the purposes of the written representations procedure and, if it has not already done so, the National Assembly must send a copy of the objection to the acquiring authority so as to be received not more than 5 working days after the starting date.

(4) The acquiring authority may-

- (a) make further representations in support of the submission; or
- (b) elect to treat any statement under paragraph (1) as its representations in relation to the submission for the purposes of sub-paragraph (a); and, in such a case, the acquiring authority must notify the National Assembly, and each remaining objector, accordingly.

(5) The National Assembly may disregard representations made under paragraph (4) if the representations are received by the National Assembly more than 14 working days after the starting date.

(6) A remaining objector may-

- (a) make representations to the National Assembly

yn ychwanegol at y rheini ym mharagraff (3); neu

- (b) dewis trin y gwrthwynebiad o dan baragraff (3) fel sylwadau'r gwrthwynebydd hwnnw at ddibenion is-baragraff (a); ac, os digwydd hynny, rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol a'r awdurdod caffael yn unol â hynny.

(7) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ddiystyru sylwadau a wnaed o dan baragraff (6) os yw'r sylwadau yn dod i law mwy na 15 o ddiwrnodau gwaith ar ôl iddo anfon copi o'r sylwadau o dan baragraff (4)(a), neu hysbysiad o dan baragraff (4)(b), at y sawl sy'n parhau i wrthwynebu.

